# BookTrust Cymru

## Amser Rhigwm Mawr Cymru
## Big Welsh Rhyme Time

### 1af o Fedi

Gan David Lennon

*Ahh*, wedi deffro, deffro, deffro
Breuddwydion arbennig o bizza yn coginio, coginio, coginio
Cefais gipolwg cyflym ar y cloc, tic, toc
Chwipiais allan o'r gwely mewn sioc, sioc, sioc

"Dafydd, dewch i lawr y grisiau am fwyd"
A dilynais yr arogl, ond dim pizza fel fy mreuddwyd!
Egni at ddiwrnod cyntaf dosbarth derbyn
Felly bant a ni i'r trên sy'n teithio'n sydyn

Ffeindiais i hi'n anodd gadael fy mam
Gyda hi'n crio wrth chwifio gyda phob cam, cam, cam
Yng nghanol yr iard, y dosbarth a fi
Hwyl fawr, mam, amser dysgu 1, 2, 3

I mewn â ni i'r dosbarth newydd sbon
Jacpot! Cannoedd o deganau gydag olwynion
Lwcus, lwcus, lwcus dwi i ddechrau'r diwrnodau di-ri
Llawn llawenydd, ffrindiau, a hwyl a sbri

Miss Flower yw fy athrawes gyntaf
Nerfus oeddwn i o flaen wyneb mor braf, braf, braf
Oren yw lliw ei gwallt hir a meddal
Perffaith a, hapus, hapus, hapus dwi dan ei gofal

A phwy yw fy ffrind, ffrind, ffrind newydd innau?
Rydyn ni'n rhannu'r trên a'r gemau
Rhys Evans o'r tŷ dros y ffordd
Sydd yn gwneud sŵn fel seindorf, seindorf, seindorf!

"Tacluswch os gwelch yn dda"
A thawelwch a ddaeth o'r gerddorfa
Ugain munud ar ôl o'r diwrnod
Wythnos arall o fy mlaen yn llawn syndod
Ysgol - Ar y cyntaf o Fedi

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

#BwrlwmYRhigwmIBawb
#RhymingFunForEveryone